



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Nephrostomi trwy'r Croen

Gofalu am eich Nephrostomi

Adran Wroleg

Efallai y byddwch chi'n dod ar draws rhai problemau adref, ond mae'n hawdd goresgyn y rhain fel rheol. Rhestrir isod rai cwestiynau cyffredin y mae cleifion yn eu gofyn. Os oes angen unrhyw wybodaeth arall nad yw wedi'i chynnwys ar y rhestr hon, mae croeso i chi ofyn i'ch meddyg neu nyrs.

Beth yw fy nghyfyngiadau?

Gellir cyfyngu ar symudiadau. Efallai y byddwch chi'n ei chael hi'n anghyfforddus pan fyddwch chi'n plygu, ymestyn, dringo grisiau neu pan yn gwneud gweithgaredd egniol; gellir goresgyn hyn trwy ddal eich llaw dros y safle nephrostomi wrth gyflawni'r gweithgareddau hyn a sicrhau bod eich nephrostomi wedi'i ddiogelu'n dda.

Sut bydd fy wrin yn draenio?

Mae'r wrin o'r aren yn draenio trwy'r tiwb nephrostomi i mewn i fag sydd ynghlwm wrth y tiwb, sydd wedi'i strapio i'ch coes. Dros nos gellir atodi bag draenio mwy i'ch bag coes. Nid yw'n anghyffredin i ychydig bach o wrin ollwng o amgylch y tiwb yn y safle mewnosod wrth symud yn sydyn h.y. troi drosodd yn y gwely.

Sut ydw i'n cysylltu'r bag draenio?

Dangosir i chi sut i wneud hyn ond dylech ofyn os ydych yn ansicr o unrhyw beth. Mae'n bwysig eich bod yn hyderus i ofalu am eich nephrostomi cyn i chi fynd adref. Os hoffech i rywun arall gael gweld sut i wneud hyn, yn ogystal â chi'ch hun, dywedwch wrth y nyrs sy'n gofalu amdanoch chi.

Pa mor aml y mae angen newid y bagiau?

Dylai'r bagiau coes a nos gael eu newid unwaith yr wythnos. Dylai'r bag nos gael ei wagio a'i rinsio â dŵr sebonllyd cynnes (defnyddiwch ychydig bach o lanedydd hylif i wneud hyn).

Pa fath o orchudd sydd dros y safle?

Mae dyfais arbennig o'r enw Statlock (yn y llun) yn dal y nephrostomi yn ei le. Gorchuddir hwn gan orchudd plastig y mae angen ei newid yn wythnosol; trefnir i nyrs ardal wneud hyn.

Mae'r gorchudd yn dal dŵr, ond mae'n dal yn bosibl i ddŵr ollwng o dan y gorchudd wrth gymryd cawod; cymerwch ofal.

Y Statlock



Beth fydd yn digwydd os daw'r tiwb allan?

Mae'r tiwb nephrostomi yn cael ei ddal yn llac yn ei le. Os bydd y tiwb yn dod allan am unrhyw reswm, mae angen i chi gysylltu â'ch meddyg teulu/nyrs ardal ar frys, os na allwch gysylltu â nhw, dylech fynd i A & E.

Os oes gennych unrhyw bryderon am eich nephrostomi, dylech gysylltu â'ch nyrs ardal neu feddyg teulu i gael cyngor pellach.

Beth ddylwn i ei wneud os ydw i'n sylwi ar waed yn y bag?

Gall gwaed fod yn arwydd o haint a dylech drefnu i weld eich meddyg teulu/nyrs ardal a all brofi am hyn. Os oes gennych haint, bydd angen gwrthfotigau arnoch. Bydd sicrhau eich bod yn yfed digon hefyd yn helpu.

A allaf atal haint rhag digwydd?

Er na allwch atal pob haint, gallwch yn sicr leihau'r risg o ddatblygu haint.

- Dylech geisio yfed 2 litr/ 4 peint o ddiod y dydd oni bai eich bod wedi cael cyngor i gyfyngu ar eich hylifau gan feddyg.
- Sicrhewch eich bod yn golchi a sychu'ch dwylo'n drylwyr cyn ac ar ôl newid neu wagio'ch bagiau draenio.

- Cadwch y tap ar eich bagiau draenio ar gau bob amser, ac eithrio wrth wagio. Dylid gwagio bagiau coes pan fyddant tua 2/3 llawn er mwyn lleihau tynnu ar y tiwb.
- Dylai'r gorchudd nephrostomi gael ei gadw'n lân a'i newid os yw'n fudr neu'n wlyb.
- Dylai'r bag draenio gael ei newid yn wythnosol.

Beth sy'n digwydd os nad yw'r nephrostomi yn draenio?

Os nad yw'n ymddangos bod y nephrostomi yn draenio, mae angen i chi wirio nad yw'r tiwb wedi crychu/troelli. Gwiriwch fod y tap ar y tiwb ar agor ac nad yw wedi'i gau ar ddamwain. Ydych chi yn yfed digon? Rhowch gynnig ar yfed 2 wydraid o ddiod, ac os nad yw'r wrin yn draenio ar ôl y gwiriadau hyn, cysylltwch â'ch nyrs ardal/meddyg teulu ar unwaith. Fel arfer, os yw'r tiwb wedi'i rwystro, mae'n hawdd ei ddatrys trwy fflysio ychydig bach o ddŵr di-haint i'r tiwb gyda chwistrell; bydd nyrs neu feddyg yn gwneud hyn.

A fyddaf yn pasio wrin yn y ffordd arferol?

Byddwch. Os oes gennych 2 aren, bydd yr un arall yn gweithio yn y ffordd arferol. Os oes gennych 2 diwb nephrostomi, gallwch basio wrin yn y ffordd arferol, er bod hyn yn annhebygol gan y bydd y tiwbiau'n draenio'r ddwy aren.

A allaf fwyta ac yfed yn normal?

Gallwch.

A fydd fy nghwsg yn cael ei effeithio?

Gall gorwedd ar ochr y tiwb nephrostomi fod yn anghyfforddus felly gallai gorwedd ar yr ochr arall fod yn well. Byddwch yn canfod ystum sy'n addas i chi, ond os ydych chi'n cael problemau, siaradwch â'ch nyrs ardal.

A fydd gen i boen?

Efallai y bydd gennych ychydig o anghysur. Gellir cymryd cyffuriau lladd poen fel paracetamol i leddfu hyn cyn belled nad ydych erioed wedi cael eich cynghori i beidio â chymryd y rhain gan feddyg. Os ydych chi'n profi poen difrifol, ewch i weld eich meddyg teulu ar frys.

A allaf i ymolchi mewn baddon?

Ni chynghorir trochi eich hun mewn baddon; fodd bynnag, gallwch gael cawod. Sicrhewch fod eich gorchudd yn ddiogel ar ôl pob cawod a chysylltwch â'r Nyrs Ardal os oes gennych unrhyw bryderon.

A allaf i wneud ymarfer corff?

Mae ymarfer corff ysgafn yn iawn. Gall ymarfer corff mwy egniol achosi poen a gallai symud eich nephrostomi, felly mae'n well ei osgoi.

Pryd alla i fynd yn ôl i'r gwaith?

Mae hyn yn dibynnu ar eich swydd. Mae gwaith swyddfa ysgafn yn iawn, ond efallai na fyddai gwaith trwm fel llafurio yn iawn. Gwiriwch gyda'r meddyg/nyrs sy'n gofalu amdanoch chi ynglŷn â'ch swydd benodol.

A allaf gael cyfathrach rywiol ?

Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar weithgareddau rhywiol. Efallai bod gennych chi rywfaint o ofn symud y tiwb ond cofiwch os ydych chi'n ofalus, ni ddylai fod unrhyw reswm pam y bydd y tiwb yn dod allan.

A allaf i yrru?

Os ydych chi'n gyffyrddus wrth yrru yna nid oes unrhyw gyfyngiadau; dylech wirio bod hyn yn wir cyn i chi gael eich rhyddhau. Dylech roi gwybod i'ch cwmni yswiriant ac egluro iddynt fod eich meddyg wedi nodi ei fod yn hapus i chi yrru.

A allaf i fynd o gwmpas?

Dylech allu cyflawni eich gweithgareddau arferol. Gall gwybod ble mae toiledau leddfu ofnau fod eich bag draenio yn mynd yn orlawn. Wrth i'ch hyder wella, fe welwch fod cynllunio eich teithiau yn dod yn haws.

A allaf fynd ar wyliau?

Mae hyn yn dibynnu ar pam mae gennych eich nephrostomi, i ble'r ydych chi'n mynd, ac am ba hyd. Efallai y bydd hefyd yn dibynnu ar ba mor hyderus ydych chi'n gofalu am eich nephrostomi. Os oes gennych wyliau eisoes wedi'u harchebu dylech drafod hyn gyda'ch meddyg. Bydd angen i chi hefyd hysbysu'ch cwmni yswiriant.

Beth sy'n digwydd wrth gael eich rhyddhau o'r ysbyty?

- Bydd staff y ward yn trefnu i Nyrs Ardal neu Nyrs Ymarfer yn eich meddygfa newid eich gorchudd a gwirio'r safle nephrostomi.
- Byddwch yn cael llythyr i fynd i'ch meddyg teulu/ nyrs ardal.
- Byddwch yn cael unrhyw feddyginiaeth sydd ei hangen arnoch cyn eich rhyddhau. Os oes angen presgripsiwn ailadroddus arnoch chi, bydd eich meddyg teulu yn darparu hwn.

- Bydd apwyntiad claf allanol yn cael ei bostio neu ei roi i chi cyn i chi adael. Mae'n bwysig eich bod yn mynychu'r apwyntiad hwn fel y gallwch barhau i gael eich monitro, cynllunio unrhyw driniaeth bellach a threfnu newidiadau i'ch tiwb nephrostomi yn y dyfodol, fel arfer bob 3 mis neu'n gynharach os yw'ch Ymgynghorydd yn teimlo bod hyn yn briodol.

Gobeithio y bydd eich cwestiynau wedi cael eu hateb yn y daflen hon, ond os nad ydynt, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n holi cyn i chi fynd adref.

Gwybodaeth rhyddhau – Nyrsys Ward/Ardal

Dylai fod gan gleifion atgyfeiriad nyrs ardal, pecyn gwybodaeth nephrostomi sy'n cynnwys Statlock sbâr, gorchudd achludol, cerdyn cyswllt a chanllawiau nyrsio ar gyfer gofal nephrostomi.

Gellir cael mwy o wybodaeth am dechneg gosod/tynnu ar safle Bard trwy ddefnyddio'r ddolen isod:

http://www.bardaccess.com/assets/pdfs/statlock/Other/STATLOCK_Universal_Plus_Stabilization/StatLock_Universal_Plus_Poster_M1142.pdf

Ffynonellau eraill o wybodaeth

NHS Direct - Am gyngor neu wybodaeth iechyd gallwch ffonio NHS Direct ar 0845 4647 neu ymweld â'r wefan: www.nhsdirect.nhs.uk

1. *Information for patients undergoing percutaneous nephrostomy* (2008) Clinical Radiology Patients' Liaison Group (CRPLG) of The Royal College of Radiologists and the British Society of Interventional Radiology (BSIR). The Royal College of Radiologists, London.

Rhoddir caniatâd i addasu a / neu atgynhyrchu'r daflen hon at ddibenion sy'n ymwneud â gwella gofal iechyd, ar yr amod bod y ffynhonnell yn cael ei chydabod ac na ddefnyddir unrhyw ran o'r deunydd er budd masnachol. Ni chaniateir defnyddio'r deunydd at unrhyw bwrpas arall heb gydsyniad ymlaen llaw gan Goleg Brenhinol y Radiolegwyr.

© Coleg Brenhinol y Radiolegwyr Mai 2008.

Newid gorchudd neffrostomi/ bag draenio

** Dylid newid dyfais ddiogel Statlock a'r bag draenio yn wythnosol.

Cyfarpar: Pecyn gorchudd, hylif glanhau, menig di-haint, statlock, cysylltydd (os oes angen), gorchudd nephrostomi/bag draenio, gorchudd gludiog clir, bag draenio, chwistrell neu glytiau alcohol/ chlorhexidine.

<p>1. Esboniwch y weithdrefn i'r claf a chael caniatâd.</p> <p>2. Yn ddelfrydol gofynnwch i'r claf eistedd ar ochr y gwely neu os nad yw'n briodol, i orwedd ar ei ochr.</p> <p>3. Gwisgwch ffedog. Golchwch eich dwylo.</p> <p>4. Agorwch y pecyn di-haint a pharatoi y maes di-haint a'r cyfarpar. Gwisgwch y menig di-haint.</p> <p>5. Sicrhewch y tiwb yn ei le gyda rhywfaint o dâp cyn plicio i ffwrdd yr hen orchudd, gan ddal y croen/tiwb gyda'r llaw arall i rwystro niwed i'r croen neu dynnu ar y tiwb nephrostomi.</p> <p>6. Newidiwch y menig di-haint.</p> <p>7. Glanhewch o amgylch safle nephrostomi gyda halwynog / dŵr di-haint gan weithio tuag allan ac i ffwrdd o'r tiwb nephrostomi / safle mewnosod.</p>	<p>I gael cydweithrediad llawn.</p> <p>I geisio sicrhau mynediad llawn i'r safle nephrostomi.</p> <p>Lleihau'r risg o groes-heintio a chydymffurfio â'r polisi rheoli heintiau</p> <p>I atal niwed i'r croen. Er mwyn atal symud y tiwb.</p> <p>Lleihau croes-heintio</p> <p>Lleihau haint a chydymffurfio â pholisi rheoli heintiau.</p>
--	---

<p>8. Pan fydd y croen yn sych, tynnwch haenen gefn y gorchudd statlock yn ôl a'i lynu i'r croen mewn llecyn tebyg i'r gorchudd a dynnwyd. Rhowch y tiwb yn ôl yn y gorchudd Statlock gan sicrhau nad yw'r tiwb yn cael ei grychu, ei dynnu na'i binsio yn y daliwr.</p> <p>9. Gorchuddiwch â naill ai gorchudd lliain di-haint neu, gorau oll, gyda gorchudd pilen lled-athraidd clir (tegaderm).</p> <p>10. Sicrhewch fod y tap wedi ei gau o ran draenio. Glanhewch y pen gyda chwistrell neu glytiau alcohol/chlorhexidine. Datgysylltwch y bag draenio a rhoi bag newydd yn ei le. Agorwch y tap i ddraenio.</p> <p>11. Sicrhewch fod y nodiadau nyrsio yn cael eu diweddarau'n llawn gydag arsylwadau ynghylch y safle draenio, dyddiad ac amser newid y gorchudd, gan sicrhau fod y claf yn ymwybodol o ddyddiad yr adolygiad nesaf.</p>	<p>I helpu'r gorchudd i lynu Er mwyn sicrhau draenio wrin yn rhydd</p> <p>Lleihau'r risg o symud y tiwb Yn caniatáu delweddu'r safle</p> <p>Cynnal system gaeedig Lleihau'r risg o haint</p> <p>Cydymffurfio â safonau cyfreithiol y ddogfennaeth Galluogi parhad gofal cleifion.</p>
---	---

SUT I FFLYSIO TIWB NEPHROSTOMI – TECHNEG ASEPTIG

Mae angen gwirio'r tiwb yn barhaus am ddraenio wrin clir. Os yw'n ymddangos bod tiwb wedi'i rwystro, gwiriwch yn gyntaf nad oes crych ynddo. Os nad yw wedi crychu, ceisiwch fflyσιο cyn cysylltu â staff meddygol. Os nad oes unrhyw berson cymwys ar gael i fflyσιο nephrostomi, dylid cysylltu â staff meddygol yn brydlon.

Cyfarpar

Dŵr di-haint 10 ml (ar gyfer fflyσιο), unisept di-haint (ar gyfer glanhau), chwistrell di-haint 5-10 ml, menig di-haint, pecyn gorchudd, clwt alcohol/chlorhexidine, ffedog.

<ol style="list-style-type: none">1. Esboniwch y weithdrefn i'r claf a chael caniatâd.2. Yn ddelfrydol gofynnwch i'r claf eistedd ar ochr y gwely neu os nad yw'n briodol, i orwedd ar ei ochr.3. Gwisgwch ffedog. Golchwch eich dwylo.4. Agorwch y pecyn di-haint a pharatoi y maes di-haint a'r cyfarpar. Gwisgwch y menig di-haint.5. Glanhewch y tiwb a'r cysylltydd gyda chlwt alcohol neu chlorhexidine. Gadewch iddo sychu.6. Gwiriwch nad oes crych yn y tiwb. Sicrhewch nad yw'r tap draenio wedi ei gau.7. Caewch y tap cyn datgysylltu'r tiwb.8. Fflysiwch y tiwb yn araf gyda 5ml o ddŵr di-haint (gall halwynog gynyddu'r perygl o ddyddodion/cerrig)	<p>I gael cydweithrediad llawn.</p> <p>Ceisio sicrhau mynediad llawn i'r safle nephrostomi.</p> <p>Lleihau haint. Cydymffurfio â'r polisi rheoli heintiau</p> <p>Lleihau haint. Cydymffurfio â'r polisi rheoli heintiau</p> <p>I wirio am resymau amlwg dros beidio â draenio.</p> <p>Cynnal system gaeedig / lleihau'r risg o haint.</p> <p>I atal niwed i'r aren.</p>
---	---

<p>9. Datgysylltwch y chwistrell, gan ganiatáu i wrin ddraenio i ddysgl arenau di-haint. Os nad oes draeniad, tynnwch yn ôl yn araf ar y chwistrell - gall hyn symud y rhwystr.</p>	<p>I wirio am ddraeniad. Gall grym gormodol achosi gwaedu</p>
<p>10. Gellir fflysio eto gyda 5 ml o ddŵr di-haint os oes angen. Os yw fflysio yn methu, cysylltwch â staff meddygol; efallai y bydd angen nephrostomi newydd.</p>	<p>I atal niwed i'r aren</p>
<p>11. Ailgysylltwch y bag draenio, arhoswch am ½ awr i wirio am ddraeniad. Os yw'n draenio, anogwch y claf i yfed 1-2 wydraid o ddŵr os yn briodol.</p>	<p>Hyrwyddo troethlif</p>
<p>12. Tynnwch y menig/ ffedog. Golchwch eich dwylo.</p>	<p>Lleihau haint / cydymffurfio â pholisi rheoli heintiau</p>
<p>13. Sicrhewch fod y nodiadau nyrsio yn cael eu diweddarau'n llawn.</p>	<p>Cydymffurfio â safonau cyfreithiol y ddogfennaeth Galluogi parhad gofal cleifion.</p>

Os yw'r claf yn datblygu poen dros y safle nephrostomi neu dymheredd, dylid ymchwilio i hyn ar frys oherwydd gall hyn fod yn symptom o diwb wedi'i rwystro/ haint.

Gwiriwch bob amser fod y tiwb yn draenio cyn i chi adael y claf. Gall tiwb nephrostomi sydd wedi'i rwystro achosi poen yng ngwaelod y cefn, arenchwydd, sepsis ac yn y pen draw fethiant yr arenau.

**“Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English”.**